# Pawb at y bwrdd!



## Beth sydd ei angen arnoch...

* Darn o bren morol haenog tua 300mm x 300mm x 19mm o drwch
* 4 stribed o bren 50mm x 275mm x 12mm o drwch
* hoelion galfanedig
* polyn neu bostyn tua 1.5 metr o uchder (50mm x 50mm o bren meddal wedi'i lifio)
* 4 braced ongl metel a sgriwiau sy'n ffitio
* 2 fachyn cwpanau
* morthwyl
* tyrnsgriw





Dyma fwrdd adar sy'n hawdd iawn ei wneud. Rhowch fwyd arno, eistedd yn ôl a gwylio! Ymhen fawr o dro bydd digonedd o adar llwglyd yn dod i'ch caffi chi i fwyta. Bydd angen ichi ei gadw yn lân, yn daclus a gofalu bod bwyd blasus ar y fwydlen. Dim ond i chi wneud hynny, daw'r adar yn ôl dro ar ôl tro, a dod â'u ffrindiau a'u teuluoedd hefyd!

Bwyd adar posibl

CJ WildBird Foods Ltd

Gallwch brynu hadau i adar gwyllt gan CJ WildBird Foods yn www.birdfood.co.uk, mewn siopau anifeiliaid anwes ac mewn rhai archfarchnadoedd a chanolfannau garddio. Mae adar hefyd yn hoffi cnau, caws, briwsion hen gacennau a ffrwythau sych.

Mae angen dŵr ar adar i'w yfed ac i ymolchi ynddo. Mae caead bun sbwriel wedi'i droi ben i waered a'i ddal i fyny ag ychydig o gerrig neu friciau yn gwneud bath da i adar.



Ffotograff: Daniel Pangbourne, Lluniau: Dom Mansell Gwneuthurwr: Diane James

**Peidiwch ag anghofio:** Mae angen cael gwared ar fwyd sydd heb ei fwyta bob dydd, glanhau, diheintio a golchi'r bwrdd bob wythnos, a'i symud bob mis.






Diagram torri'r bwrdd adar










**1** Hoeliwch y stribedi tenau o bren i bob ochr i ben y bwrdd adar. Gadewch le bach gwag ym mhob cornel i'w gwneud yn hawdd sgubo'r briwsion i ffwrdd ac i adael i ddŵr glaw olchi i ffwrdd.

**2** Sgriwiwch ddau fachyn cwpanau i ochr waelod y bwrdd adar. Gallwch hongian porthwyr oddi wrthynt.





**3** Cysylltwch y postyn ag ochr waelod pen y bwrdd trwy sgriwio'r bracedi ongl wrtho.

**4** Gwthiwch y postyn i mewn i'r ddaear nes ei fod yn sefyll yn gadarn. Rhowch ddigon o fwyd adar ar y bwrdd. Buan y byddwch yn gwybod faint i'w roi!

**GAN BWYLL!** Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael help oedolyn i lifio'r darnau o bren. Gall offer fod yn beryglus os na chânt eu defnyddio'n iawn. Gwell bob amser bod ag arbenigwr wrth law i roi cyngor!

